**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cyfarwyddwyr Cyllid,
Byrddau Iechyd yng Nghymru

1 Mehefin 2012

Annwyl

**Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru: craffu ariannol**

Fel y gwyddoch, o bosibl, mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am archwilio gwariant, gweinyddiaeth a pholisi Llywodraeth Cymru.

Er mwyn llywio ein trafodaethau ar faterion ariannol yn y dyfodol sy'n rhan o'n cylch gwaith, ac i sicrhau bod ein gwaith o graffu ar Lywodraeth Cymru yn effeithiol a chadarn, ysgrifennaf at bob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru i ofyn am gymorth i lywio ein gwaith yn y maes hwn. Rwyf ar ddeall bod gan bob bwrdd iechyd lleol y wybodaeth hon eisoes ac felly ni ddylai fod angen iddynt gasglu data pellach.

Er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn parhau i gynnal dealltwriaeth ddigonol o sefyllfa ariannol y GIG yng Nghymru sy'n ddisgwyliedig ohonom, ac i helpu i sicrhau bod ein hystyriaethau yn wybodus a chywir, byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon y wybodaeth ganlynol atom:

- manylion am eich dyraniadau refeniw a chyfalaf gwreiddiol o Lywodraeth Cymru ar gyfer blynyddoedd ariannol 2011-12 a 2012-13;

- copïau o'ch cynlluniau ariannol (refeniw a chyfalaf), gan gynnwys manylion am arbedion i'w cyflawni, ac o ba wasanaethau, ar gyfer blynyddoedd ariannol 2011-12 a 2012-13;

- manylion am unrhyw gyllid ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2011-12 gan Lywodraeth Cymru, a'r diben y cafodd ei ddarparu;

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8403
E-bost / Email: PwyllgorIGC@cymru.gov.uk
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

- gwybodaeth am sefyllfa ariannol diwedd y flwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12, a manylion cynnydd yn erbyn y cynlluniau ariannol a'r targedau arbed ym mhob gwasanaeth; a

- gwybodaeth am sut mae cynllunio ariannol a'r rheidrwydd i wneud arbedion wedi effeithio ar eich gallu i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau polisi a bennwyd gan Lywodraeth Cymru, ac enghreifftiau o hynny.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan a byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon y wybodaeth y gofynnwyd amdani erbyn dydd Llun 25 Mehefin 2012. Anfonwyd copi o'r llythyr hwn at Brif Weithredwyr Byrddau Iechyd, er gwybodaeth.

Yn gywir

Mark Drakeford

**Mark Drakeford AC**
Cadeirydd

**Cc**, Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd